

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarfod o'r Bwrdd

16 Hydref 2013

Teitl y Papur	Crynodeb y Cadeirydd o fusnes cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd 16 Medi 2013
Cyfeirnod y Papur:	CNC B (O) 40.13
Ysgrifennwyd y Papur gan:	Nigel Reader

Pwrpas y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi prif eitemau'r drafodaeth
Penderfyniad sydd ei Angen:	Nid yw'n berthnasol

Effaith: Nodir – efallai nad yw bob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	Effaith ar yr Amgylchedd: Nid yw'n berthnasol Effaith ar yr Economi: Nid yw'n berthnasol Effaith ar Bobl a Chymunedau: Nid yw'n berthnasol Effaith ar Wybodaeth: Nid yw'n berthnasol
---	---

Pwnc

1. Briffio'r Bwrdd ar y prif bwyntiau trafod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 16 Medi 2013.

Crynodeb

1. Gwnaethom gyfarfod drwy ddefnyddio cymysgedd o gyfleusterau cynhadledd fideo a thelegynhadledd o'n canolfan yn swyddfa CNC ym Mae Caerdydd wedi'i gysylltu â thri safle pell.
2. Rydym yn awr wedi ffurfioli'r broses o adrodd yn ôl ar fusnes PASR o brif gyfarfodydd y bwrdd ac rydym wedi edrych yn ôl yn gadarnhaol ar y broses ymgysylltu yr ydym wedi'i datblygu gyda'r bwrdd.
3. Mike Palmer o Swyddfa Archwilio Cymru oedd ein gwestai arbennig a rhoddodd gyflwyniad ar y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a swyddogaeth Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wrth ddarparu ymateb archwilio. Roeddem yn croesawu agwedd oleuedig SAC tuag at eu gorchwyl, a chawsom drafodaeth eang, gan gydnabod y rhan bwysig oedd gan CNC fel enghraifft posibl, gan orffen drwy ddweud y dylai Mike gael ei wahodd i gyfarfod mis Mawrth o PASR ar dyfer diweddariad o gynnydd SAC ac ymgysylltiad CNC.
4. Cawsom adroddiad gan Kevin Ingram ar gwblhau adroddiadau blynyddol a chyfrifon y cyrff etifeddol ar gyfer 2012-13 a'r paratodau ar gyfer "ymgyrch" 2013-14 a fydd yn amodol ar ddisgyblaethau rheoli'r prosiect. Bydd y cyfrifon a'r adroddiad blynyddol yn cael eu "profi" ar sail y perfformiad at 30 Tachwedd a bydd y PASR yn derbyn adroddiad diweddarau cynhwysfawr ar ganlyniad ein cyfarfod ym mis Mawrth.
5. Cyflwynodd Phil Pugh o SAC lythyrau rheoli archwilio allanol 2012-13 ar gyfer y Cyngor Cefn Gwlad a'r Comisiwn Coedwigaeth a chadarnhaodd y rheolwyr eu bod yn derbyn yr ychydig argymhellion a oedd yn ddymunol eu natur.
6. Siaradodd Martin Veale am ei adroddiad cryno ar archwilio mewnol a oedd yn cynnwys canlyniadau pedwar adolygiad archwilio (y cwbl yn dangos sicrwydd sylweddol), adroddiad cynnydd ar raglen archwilio mewnol 2013-14 (sydd i raddau helaeth ar y trywydd iawn), diweddariad o'r strwythur archwilio mewnol a threfniadau cyflawni sy'n datblygu (ac roeddem yn hapus gyda hyn) a rhestr o'r argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill a etifeddwyd gan y cyrff etifeddol. Bydd Emyr a'i dîm yn awr yn asesu'r flaenoriaeth gymharol sydd i'w hatodi i bob un o'r argymhellion hyn a byddwn yn adrodd i'n cyfarfod mis Tachwedd gyda thrywydd archwilio o'r penderfyniadau a gymerwyd. Byddwn yn disgwyl peth rhesymoliad yn seiliedig ar risg, ond byddai'r holl argymhellion blaenoriaeth uchel yn cael eu dilyn gan reolwyr CNC.
7. Gwnaethom gymeradwyo'r polisi rheoli risg arfaethedig yn amodol ar newid bychan, ynghyd â chynigion ar gyfer ei gyfathrebu a'i ledaenu. Bydd gofyn i'r bwrdd gymryd safbwynt ar ei archwaeth risg yng nghyd-destun trafodaeth ar flaenoriaethau'r cynllun busnes ym mis Chwefror.

8. Gwnaethom adolygu'r fersiwn ddiweddaraf o'r gofrestr risg corfforaethol gan nodi y byddai hon yn cael ei newid ymhellach yn dilyn trafodaeth gan y tîm gweithredol o'r ychwanegiadau a'r newidiadau a ddaeth i'r amlwg yn nhrafodaeth y bwrdd ar 3 Medi. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'n cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd, ynghyd â thrywydd archwilio ar gyfer yr amrywiol bwyntiau a wnaed gan y bwrdd.
9. Gwnaethom adolygu'r diweddariad diwethaf ar gynnydd wrth weithredu'r argymhellion adroddiad gwerth am arian SAC ar y Comisiwn Coedwigaeth. Gwnaethom gytuno i drafod adroddiad cyfunol ar gyflawni yn ein cyfarfod ym mis Mawrth ac yna ystyried a yw ein lefel sicrwydd o'r fath fodd fel y gellir gollwng yr eitem o'n agenda arferol.
10. Rydym yn adolygu trefniadau PASR CNC yn erbyn meincnod yr ymarfer gorau a amlinellwyd yn llawlyfr y Trysorlys ar gyfer PASRau. Bydd hyn yn arwain at nodi gweithredoedd ar gyfer gwella a fydd yn rhoi gwybod i'n gweithdy adolygu effeithiolrwydd PASR ac yn adolygiad i'n amodau cyfrifoldeb. Bydd cynigion am ddilyn hyn ymlaen yn dod i'n cyfarfod ym mis Tachwedd, ond yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithredu unrhyw welliannau amlwg a syml sy'n cael eu nodi.
11. Fel sy'n awr yn ymarfer safonol gennym, gwnaethom adolygu'r cyfarfod a'n perfformiad fel eitem derfynol ar ein agenda. Roedd y sylwadau yn rhai ffafriol gan bawb, ond gwnaethom nodi rhai pwyntiau dysgu ac fel Cadeirydd cefais fy ngheryddu gan i mi gael fy atgoffa y gallwn dicio'r holl flychau busnes yn effeithiol ac yn effeithlon, ond byddai hyn i ddim onibai bod CNC yn cyflawni'i genhadaeth.

Risgiau

12. Byddai methu â chynghori'r Bwrdd a chefnogi'r Swyddog Cyfrifo ar faterion risg, stiwardiaeth ariannol ac atebolrwydd yn cynyddu'r risg o faterion llywodraethu a rheoli a lleihau'r cyfle i weithredu'n briodol er mwyn unioni unrhyw wendidau o'r fath.

Goblygiadau Ariannol

Nid yw'n berthnasol.

Cyfathrebu

Bydd unrhyw bwyntiau a godwyd gan y Bwrdd yn cael eu cofnodi.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

Nid yw'n berthnasol.